# <u>Pererin wyf</u>

William Williams, Pantycelyn

Pererin wyf mewn anial dir,
Yn crwydro yma a thraw,
Ac yn rhyw ddisgwyl bob yr awr
Fod tŷ fy Nhad gerllaw.

Tyrd, Ysbryd Sanctaidd, ledia'r ffordd,
Bydd imi'n niwl a thân;
Ni cherdda' i'n gywir hanner cam
Oni byddi di o'm blaen.

Mi ŵyraf weithiau ar y dde
Ac ar yr aswy law;
Am hynny arwain, gam a cham,
Fi i'r baradwys draw.

Mae hiraeth arnaf am y wlad
Lle mae torfeydd di-ri'
Yn canu'r anthem ddyddiau'u hoes
Am angau Calfari.